

## Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

### Mai 5ed, 5.30yh (Cyfarfod ar Zoom)

Presennol: Hanna Domagala, Nia Hughes, Elin Williams, Llinos [Roberts](#), Lois McGarth, Lisa Davies, Karen [Evans](#), Delyth Jones Thomas, Heddwen [Williams](#), Manon [Cadwaladr](#), [Alwyn Davies](#), [Nia Hughes](#), Buddug.

[Cafwyd ymddiheuriadau gan Glain Thomas, Angharad Rhys, Christine Barker Jones, Glesni Jones, Siân Williams a Caryl Owen.](#)

Croeswyd pawb i'r cyfarfod.

Cafwyd grynhoad o weithgareddau codi arian a drefnwyd yn ddiweddar er fod cyfnodau clo y Covid wedi creu anhawsterau i gynnal gweithgareddau arferol y flwyddyn yma.

[Diolchwyd i Emyr Gibson am drefnu disgo i'r plant yn ystod tymor yr haf.](#)

### Derbynwyd arian i fewn gan:

- ~~Emyr Gibson~~
- Grant COOP - £1200
- Cyngor Tref Caernarfon - £500
- ~~Grant Covid~~ [Cardiau Nadolig](#) - £500
- Raffl [Nadolig Lotti Wren](#) - £250
- ~~Ocsiwn~~ - dros £1000
- [Rhywfaint o arian drwy easyfundraising](#)

### Gwariant

- £5000 at y cwt
- £360 anrhegion Nadolig
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

Cadarhwyd gan Karen fod £7091 yn y banc ar Ebrill y 1af

### Syniadau Codi Arian

- ~~Ystyried cynhyrchu rhywbeth a fyddai'n ymgorffori gwaith celf 'Anthem y Gelli' gan Manon [Awst](#)~~
- [Tynnu lluniau dosbarth](#)
- Gwerthu 'tracksuit' gyda logo Ysgol y Gelli a fyddai'n ddefnydiol gan fod y plant yn gwisgo dillad Addysg Gorfforol i ddod i'r ysgol ddwy waith yr wythnos.
- Gorchudd glaw tu allan ar gyfer y rhieni.

### Gwario arian.

- Roedd y Gymdeithas yn awyddus i wario'r arian sydd yn y banc er budd y disgyblion.
- Cytunwyd y byddai'r ysgol y paratoi rhestr o adnoddau ar gyfer ardaloedd tu allan y CS ac adnewyddu offer Cwricwlaidd i'r Adran Iau.

- Mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill grant o £800 er mwyn datblygu gardd lysiau. Cytunodd y Gymeithas i helpu ariannu'r cynllun yma ymhellach.
- Archebu lle i storio beics ar gyfer y CS er mwyn osgoi cymysgu swigod.

## **Penodi Swyddogion Newydd**

**Trysorydd** – Elin Williams

**Cadeirydd** - Delyth Jones Thomas (Lois McGarth i gefnogi)

Diolchwyd o galon i Manon ac i Karen am eu gwaith gwerthfawr, di-flino ar hyd y blynyddoedd.